Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cynllunio ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

## Pennu amcanion llesiant yn Awdurdod Cyllid Cymru

Mawrth 2026

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy'n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae'n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes angen cymorth arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigurau allweddol | 6 |
| Ein canfyddiadau | 7 |
| Argymhellion | 16 |
| Atodiadau | 18 |
| 1 Ynglŷn â’n gwaith | 19 |
| 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn | 21 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn yr oeddem yn edrych arno

1 O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf), rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) a rhai cyrff cyhoeddus eraill penodol bennu 'amcanion llesiant' i greu Cymru well, yn awr ac yn y dyfodol. Ar ôl pennu'r amcanion hyn, rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni hefyd.

2 Wrth bennu amcanion, rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried yr effaith ar y 'nodau llesiant' cenedlaethol yn y Ddeddf. Rhaid iddynt hefyd gynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn y broses ac ystyried sut y gallent weithio gyda phartneriaid i'w cyflawni. Yn y pen draw, rhaid i gyrff cyhoeddus feddwl am y tymor hwy, fel y gallant ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Adwaenir hyn fel yr 'egwyddor datblygu cynaliadwy'.

3 Fe wnaethom ystyried sut y gwnaeth ACC gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth iddo bennu ei amcanion llesiant a dechrau cynllunio i'w cyflawni. Fe ddechreuodd ACC ddatblygu'r amcanion yng ngwanwyn 2024 ac fe'u cyhoeddodd ar ddechrau mis Ebrill 2025.

## Pam mae hyn yn bwysig

4 Dylai amcanion llesiant bennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer cyrff cyhoeddus. Dylent helpu cyrff cyhoeddus i gynllunio'r camau gweithredu y mae angen iddynt eu cymryd yn y tymor byr a chanolig i wella llesiant y bobl a'r lleoedd y maent yn eu gwasanaethu. Er mwyn i'r Ddeddf gael yr effaith a ddymunir, bydd hi'n bwysig i gyrff cyhoeddus bennu eu hamcanion yn effeithiol a chyfleu'n eglur sut y maent wedi gwneud hynny.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

5 Ar y cyfan, canfuom fod ACC wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i bennu amcanion llesiant sy'n ganolog i'r sefydliad. Mae wedi gwneud hyn mewn ffordd sy'n gymesur i'w gylch gwaith ond bydd angen iddo fynd ymhellach, gan gynnwys ymgysylltu â rhagor o randdeiliaid, wrth i'w gyfrifoldebau dyfu. Nid yw hi'n glir eto sut y bydd ACC yn darparu adnoddau i gyflawni ei amcanion dros y tymor canolig, a bydd angen mesurau perfformiad newydd arno.

## Yr hyn a argymhellir gennym

6 Rydym wedi gwneud pum argymhelliad. Maent yn canolbwyntio ar sicrhau bod ACC yn gallu asesu cynnydd tuag at ei amcanion llesiant. Maent hefyd yn canolbwyntio ar sicrhau bod ACC yn ehangu'r modd y cynhwysir rhanddeiliaid pan fydd yn pennu ei amcanion llesiant nesaf ac yn cynnwys yr holl elfennau angenrheidiol mewn datganiadau llesiant yn y dyfodol.

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

## Llesiant yng Nghymru

**7** Nodau llesiant cenedlaethol i Gymru

- Mwy cyfartal
- Cydnerth
- Yn gyfrifol yn fyd-eang
- Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Iachach
- Ffyniannus
- Cymunedau cydlynol

**5** Ffyrdd o weithio y mae'n rhaid i gyrff eu hystyried wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy:

- Tymor hir
- Integreiddio
- Cyfranogiad
- Cydweithio
- Atal

## Amcanion llesiant ACC

**3** Amcanion llesiant a bennwyd gan ACC ar gyfer 2025-2028:

- Hawdd: byddwn yn ei gwneud yn hawdd gwneud y peth iawn.
- Teg: byddwn yn deg ac yn gyson yn y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau.
- Cynaliadwy: byddwn yn sefydliad cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y dyfodol.

# Ein canfyddiadau

## Cynllunio

**Tynnodd ACC ar wybodaeth berthnasol i bennu amcanion llesiant sy'n ganolog i'r sefydliad, ond bydd angen iddo ymgysylltu â rhagor o randdeiliaid wrth i'w gylch gwaith dyfu**

### Dull cyffredinol

7 Daeth ACC yn gorff a enwir dan y Ddeddf ar 30 Mehefin 2024. Roedd hi'n ofynnol iddo bennu ei amcanion llesiant cyntaf erbyn diwedd mis Mawrth 2025.

8 Roedd yr amserlen hon yn cyd-daro â gwaith arfaethedig gan ACC i ddiweddaru ei Gynllun Corfforaethol 2022 - 2025. Roedd hyn yn golygu ei fod mewn sefyllfa dda i ddwyn ynghyd ei amcanion llesiant a'i broses cynllunio corfforaethol sefydledig, yn unol â chanllawiau statudol ac arfer da. Fe ymgorfforodd ei amcanion llesiant yn ei Gynllun Corfforaethol 2025 - 2028, a gyhoeddwyd ar 1 Ebrill 2025.

9 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys 'datganiad llesiant' ACC hefyd. Mae'n ofynnol i ACC lunio datganiad o'r fath, a dylai gynnwys peth gwybodaeth benodol. Nid yw datganiad llesiant ACC yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Er enghraifft, nid yw'n cynnwys disgrifiad o sut y gwnaeth ACC gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth lunio'r amcanion (gweler hefyd **paragraff 38**).

10 Mae ACC o’r farn bod y Ddeddf wastad wedi dylanwadu ar ei weithrediadau a’i fod felly mewn sefyllfa dda i gyflawni ei ddyletswyddau newydd. Roedd yn awyddus hefyd i ddysgu oddi wrth eraill. Er enghraifft, fe adolygodd sut yr oedd cyrff hyd braich eraill, gan gynnwys Amgueddfa Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi mynd ati i bennu amcanion llesiant.

11 Fe geisiodd ACC gyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol (y Comisiynydd) hefyd ynghylch sut y dylai fynd ati i gynnal y broses (gweler **paragraff 21**). Ar adeg ysgrifennu’r adroddiad hwn, roedd ACC yn bwriadu cynnal ‘ymarfer gwersi a ddysgwyd’ i oleuo’i broses cynllunio corfforaethol yn y dyfodol.

## Deall y tymor byr a hwy

12 Mae gan ACC rôl ac iddi ddiffiniad tynn, a ddisgrifir yn ei gynllun corfforaethol fel ‘dylunio a darparu gwasanaethau refeniw ac arwain ar wneud gwell defnydd o ddata trethdalwyr Cymru’. Mae’n casglu dwy dreth – y Dreth Trafodiadau Tir a’r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. O ystyried hyn, nid yw llawer o’r ffynonellau data nodweddiadol a allai cyrff eraill dynnu arnynt i lunio eu hamcanion llesiant a chamau i’w cyflawni mor berthnasol i ACC.

13 Mae ACC wedi defnyddio ei wybodaeth ei hun am berfformiad i helpu i bennu ei amcanion llesiant. Defnyddiodd yr wybodaeth hon fel man cychwyn, gan adolygu ei berfformiad yn y gorffennol yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn ei Gynllun Corfforaethol 2022 - 2025.

14 Mae ACC wedi bwrw golwg hefyd ar ffactorau sy’n tanategu agweddau ar ei berfformiad. Mae wedi cynnal ymchwil defnyddwyr i ddeall pam nad yw rhai pobl yn talu’r trethi sy’n ddyledus. Fe adlewyrchir hyn yn ffocws parhaus ACC ar ei gwneud hi’n ‘hawdd gwneud y peth iawn’, a ddisgrifir yn ei amcan llesiant ‘hawdd’.

15 Mae ACC yn defnyddio data allweddol arall i gynllunio ei wasanaethau hefyd. Mae hyn yn cynnwys ystadegau'r farchnad i helpu i gynllunio ei waith ar y Dreth Trafodiadau Tir ac amcangyfrifon o'r costau sy'n gysylltiedig â chasglu'r ardoll ymwelwyr newydd.[1, 2] Mae'r ffynonellau data hyn wedi goleuo ffordd ACC o feddwl am sut y bydd angen iddo weithio ac ehangu capasiti ei staff i gyflawni ei amcanion llesiant (gweler **paragraffau 32 i 34**).

16 Mae Cynllun Corfforaethol ACC 2025 – 2028 hefyd yn nodi sut y bydd yn defnyddio data i sicrhau bod ei wasanaethau'n 'deg ac yn gyson', fel a ddisgrifir yn ei amcan llesiant 'teg'. Yn benodol, bydd yn defnyddio data i adnabod risgiau ac yn tynnu ar guddwybodaeth i helpu i wella ei system, ei brosesau, a'i ganllawiau i'r cyhoedd a staff.

17 Mae ACC yn archwilio tueddiadau'r dyfodol gyda'i fwrdd fel rhan o'i gylch rheolaidd o gyfarfodydd. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, mae aelodau'r bwrdd yn ystyried 'ffactorau sy'n ysgogi newid' gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, amgylcheddol a chyfreithiol. Er na chynhaliodd ACC ymarfer pwrpasol i adolygu tueddiadau'r dyfodol wrth bennu ei amcanion llesiant, dywedodd wrthym ni fod ystyried tueddiadau'n arfer sydd wedi hen ennill ei blwyf a bod uwch arweinwyr yn ymwybodol sut y gallent effeithio ar weithgarwch.

## Cynnwys eraill

18 Fe geisiodd ACC ennyn ymgysylltiad yr holl staff â'r broses o bennu ei amcanion llesiant. Gofynnwyd i staff am eu barn ynglŷn â'r cynllun corfforaethol a'r amcanion llesiant ar adeg gynnar, mewn diwrnod cwrdd i ffwrdd ar gyfer staff ym mis Gorffennaf 2024. Nid oedd staff a oedd yn arwain y broses o'r farn bod hyn wedi ysgogi'r lefel gywir o gynnwys pobl, felly fe arweinion nhw drafodaethau pellach mewn cyfarfodydd tîm ar draws y sefydliad trwy hydref 2024.

---

[1] Mae Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ACC gasglu trethi trafodiadau tir gan unrhyw unigolyn sy'n prynu eiddo â chost uwch na £225,000 neu ail eiddo â chost uwch na £40,000.

[2] Mae Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025 yn ei gwneud hi'n ofynnol i ACC greu a chadw cofrestr llety ar gyfer Cymru, a chasglu a dosbarthu'r ardoll lle mae cynghorau'n dewis ei gosod.

19 Yn eu hadborth, fe bwysleisiodd staff bwysigrwydd peidio ag ychwanegu at nifer y cynlluniau ac amcanion sefydliadol. Roedd hyn yn atgyfnerthu barn ACC na ddylai bennu amcanion llesiant ar wahân i'w gynllun corfforaethol.

20 Chwaraeodd uwch arweinwyr ran uniongyrchol yn y broses o bennu'r amcanion. Bu'r tîm arwain gweithredol – y Tîm Arwain – yn rhan o'r broses o'r dechrau i'r diwedd. Gofynnwyd i'r Bwrdd ddarparu adborth ar amcanion drafft. Fe wnaeth y Tîm Arwain a'r Bwrdd gymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol terfynol ar gyfer y cyfnod rhwng 2025 a 2028.

21 Fe ymgysylltodd ACC â'r Comisiynydd ym mis Medi 2024. Fe geisiodd ACC gyngor ynghylch y dull cyffredinol y dylai cyrff cyhoeddus ei ddefnyddio wrth bennu'r amcanion llesiant ac, yn dilyn yr ymgysylltiad hwnnw, roedd yn teimlo ei fod wedi ei sicrhau ei fod yn gwneud hynny yn unol â'r disgwyliadau.

22 Fe ymgysylltodd ACC yn ffurfiol ag undebau llafur ynghylch yr amcanion ym mis Ionawr 2025. Roedd yn meddwl bod yr undebau llafur wedi darparu adborth defnyddiol a gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch sut yr oedd cyrff eraill wedi pennu amcanion llesiant. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod bod hyn wedi digwydd ar adeg hwyr. Ni wnaeth 'geisio consensws neu gyfaddawd' trwy ymgynghori â hwy ar 'yng nghyfnod ffurfiannol y broses' ac fel arall trwy gydol y broses, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus 2023. Mae ACC wrthi'n datblygu trefniadau mwy ffurfiol ar gyfer ymgysylltu â'i undebau llafur i sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau dan y ddeddfwriaeth hon.

23 Dywedodd ACC wrthym ei fod wedi ymgysylltu â chydweithwyr yn Nhrysorlys Cymru, rhan o Lywodraeth Cymru, wrth bennu ei amcanion llesiant. Wedyn cafodd yr amcanion llesiant terfynol eu cymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg. Mae'r cynllun corfforaethol hefyd yn disgrifio bwriad ACC i 'barhau i gefnogi Llywodraeth Cymru i ddylunio a darparu gwasanaethau refeniw'.

24 Rhannodd ACC ei gynllun corfforaethol newydd a'i amcanion llesiant gyda'i bartner allweddol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae ACC yn cydweithio'n agos gyda CNC i weinyddu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Ceir 'Grŵp Llywio'r Cytundeb Dirprwyo', y gwnaeth ACC gyflwyno ei amcanion llesiant arfaethedig a'i gynllun corfforaethol drafft iddo ym mis Ionawr 2025.

25 Ar yr adeg honno, roedd Grŵp Llywio'r Cytundeb Dirprwyo'n rhagweld y byddai angen iddo ddatblygu cyd-strategaeth newydd ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a diweddaru'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y ddau sefydliad. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo'n barhaus, gan olygu bod gan y Grŵp y cyfle i sicrhau bod y strategaeth newydd yn adlewyrchu amcanion llesiant y ddau sefydliad.[3]

26 Nid ymgysylltodd ACC â sefydliadau eraill y tu hwnt i CNC a Llywodraeth Cymru wrth bennu ei amcanion llesiant. Fodd bynnag, mae ACC yn disgrifio pwysigrwydd meithrin partneriaethau newydd a chryfhau partneriaethau presennol yn y Cynllun Corfforaethol.

27 Bydd gweinyddu'r ardoll ymwelwyr newydd yn dod ag ACC i gysylltiad ag awdurdodau lleol a darparwyr llety sy'n amrywio o blatfformau archebu i berchnogion unigol. Mae hyn yn golygu y bydd hi'n bwysig i ACC gynnwys rhagor o sefydliadau, a'r rheiny'n fwy amrywiol, wrth bennu ei amcanion llesiant nesaf.

28 Nid ymgysylltodd ACC â'r cyhoedd na defnyddwyr ei wasanaethau wrth bennu ei amcanion. Fodd bynnag, fel a ddisgrifir ym **mharagraff 14**, mae wedi cynnal ymchwil defnyddwyr i helpu i siapio ei wasanaethau. Mae hefyd wedi ymgysylltu â defnyddwyr yr ardoll ymwelwyr yn y dyfodol i oleuo'i ffordd o feddwl ynglŷn â sut y byddai'n cyflawni'r cyfrifoldeb newydd hwnnw.

---

[3] Fe wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru bennu ei amcanion llesiant cyfredol yn Ein cynllun corfforaethol hyd at 2030: byd natur a phobl yn ffynnu gyda'n gilydd, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023.

### Meddwl integredig

29 Mae ACC wedi ystyried sut, o fewn ei gylch gwaith, y gall gyfrannu at lesiant Cymru. Mae o'r farn bod ei brif gyfraniad yn anuniongyrchol, trwy gasglu refeniw yn effeithlon i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n cydnabod y cyfraniad uniongyrchol y gall ei wneud trwy'r ffordd y mae'n darparu gwasanaethau.

30 Mae ACC wedi adnabod y camau y bydd yn eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant ac mae wedi eu mapio i'r nodau llesiant cenedlaethol yn ei ddatganiad llesiant. Mae camau sy'n canolbwyntio ar hygyrchedd a'r Gymraeg, er enghraifft, yn dangos sut y mae ACC yn bwriadu cyfrannu at 'Gymru sy'n fwy cyfartal' a 'Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', ochr yn ochr ag effeithiau cadarnhaol eraill.

31 Mae ACC wedi ystyried ei fodel gweithredu yng nghyd-destun y Ddeddf hefyd. Fe ddisodlodd ei amcanion corfforaethol blaenorol ar 'effeithlon' a 'medrus' â 'cynaliadwy'. Mae'r amcan cynaliadwy yn parhau â'r ffocws ar gynyddu effeithlonrwydd o ran casglu trethi, yn ogystal â cheisio cynyddu cydnerthedd y sefydliad i wynebu newidiadau yn y dyfodol.

# Darparu adnoddau a chyflawni

## Mae ACC yn bwriadu ailddylunio ei weithrediadau i fod yn fwy cynaliadwy, ond nid yw hi'n glir iddo eto sut y bydd yn darparu adnoddau i gyflawni ei amcanion dros y tymor canolig

32 Wrth i ACC bennu ei amcanion llesiant, roedd yn wynebu ansicrwydd gan bod y Senedd yn trafod Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru). Mae'r Ddeddf a ddeilliodd o hynny'n cyflwyno cyfrifoldebau newydd sy'n golygu bod ACC mewn cyfnod o newid sylweddol. Mae ACC yn rhagweld y bydd yn ehangu o 82 o aelodau o staff ym mis Ebrill 2024 i oddeutu 150 erbyn 2026.

33 O dan ei amcan llesiant ‘cynaliadwy’, mae ACC yn datgan bod arno eisiau dod yn ‘sefydliad sy’n seiliedig ar wasanaethau’ i helpu i reoli ei gyfrifoldebau sy’n ehangu. Bydd hyn yn golygu ailstrwythuro’r sefydliad yn sylweddol. Ers y dechrau, mae ACC wedi trefnu ei weithgarwch ar sail y ddwy dreth y mae’n eu casglu. Mae’n ad-drefnu yn seiliedig ar ei dri gwasanaeth: cofrestru, cyfrifo trethi, a thaliadau.

34 Mae ACC yn credu y bydd y broses ailstrwythuro hon yn cyflawni effeithlonrwydd ac yn ei helpu i fod yn fwy cydnerth. Mae’n ystyried bod hwn yn gam angenrheidiol i’w helpu i gyflawni ei amcanion llesiant a sicrhau ei fod mewn sefyllfa dda i ysgwyddo’r cyfrifoldeb am weinyddu unrhyw drethi datganoledig eraill yn y dyfodol.

35 Mae’r Cynllun Corfforaethol yn nodi camau i gyflawni’r amcanion llesiant, gyda rhagor o fanylion yn cael eu darparu yn ei Gynllun Busnes 2025-26. Roedd y Cynllun Busnes yn dal ar ffurf fersiwn ddrafft pan oeddem yn gwneud ein gwaith. Er bod tebygrwydd rhwng camau gweithredu yn y cynllun busnes a’r camau dan bob amcan llesiant, roedd hi’n anodd i ni weld cyswllt uniongyrchol. Bydd angen i ACC ddatblygu cysylltiadau mwy eglur i osgoi cymhlethdod a sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar gyflawni’r holl gamau yn ei Gynllun Corfforaethol.

36 Nid oes gan ACC gynllun ariannol tymor canolig fel y cyfryw. Fodd bynnag, mae ei waith modelu’n dangos bwlch sy’n sylweddol, ac sy’n tyfu, rhwng ei gyllideb refeniw amcangyfrifedig a’i gostau amcangyfrifedig dros gyfnod y cynllun corfforaethol cyfredol. Mae hyn ar ôl rhoi cyfrif am arbedion effeithlonrwydd y mae ACC yn amcanu at eu cyflawni trwy ddylunio gwasanaethau.

37 Nid ydym wedi profi’r tybiaethau yng ngwaith modelu ACC. Fodd bynnag, mae’n dangos bod risg na fydd ACC yn cyflawni ei gynllun corfforaethol a’i amcanion llesiant yn llawn heb ddyraniad cyllidebol mwy a/neu leihau costau.

38 Hefyd, mae’n ofynnol i ACC ddisgrifio yn ei ddatganiad llesiant sut y mae’n bwriadu sicrhau bod adnoddau’n cael eu dyrannu’n flynyddol i gyllido gweithgarwch i gyflawni ei amcanion llesiant. Nid yw datganiad llesiant ACC yn cynnwys hyn.

# Monitro

## Bydd ACC yn parhau i ddefnyddio rhai dangosyddion sydd wedi hen ennill eu plwyf i fonitro ei berfformiad ond mae'n cydnabod bod arno angen rhai mesurau newydd i adlewyrchu ei amcanion llesiant yn llawn

39 Mae gan ACC ddangosyddion perfformiad sydd wedi hen ennill eu plwyf, y mae wedi'u defnyddio i fonitro cynnydd yn erbyn cynlluniau corfforaethol blaenorol. Mae Bwrdd ACC yn gweld gwybodaeth am berfformiad yn chwarterol.

40 Mae ACC yn bwriadu defnyddio ei ddangosyddion presennol i fonitro ei amcanion llesiant. Mae wedi adnabod rhai dangosyddion 'allanol' a fydd yn darparu'r prif ffocws ar gyfer trafodaethau am berfformiad. Maent wedi cael eu cynnwys yn y cynllun corfforaethol dan bob amcan llesiant, ynghyd â rhai targedau. Bydd ACC hefyd yn monitro ac yn adrodd yn fewnol ar ddangosyddion ychwanegol, sydd wedi'u bwriadu i ddarparu cyd-destun pellach ar gynnydd a chyflawni.

41 Mae ACC wedi adnabod y gall fod angen iddo ddatblygu ystod lawnach o fesurau i adlewyrchu ei amcanion llesiant. Gall fod angen iddo wneud hynny ar gyfer yr amcan llesiant 'cynaliadwy', er enghraifft, gan bod gan hwn bwyslais gwahanol i amcanion blaenorol y cynllun corfforaethol. Mae ACC wedi adnabod y gall fod angen iddo addasu mesurau ar gyfer yr amcan hwn dros amser. Mae hefyd yn bwriadu paratoi adroddiadau naratif i ddisgrifio cynnydd, ond nid yw wedi penderfynu eto beth fydd yn cael ei gynnwys.

42 Efallai y bydd angen i ACC ddatblygu mesurau newydd hefyd wrth iddo ymgymryd â swyddogaethau newydd. Yn benodol, efallai y bydd angen iddo ddatblygu mesurau newydd sy'n ymwneud â gweinyddu'r Ardoll Ymwelwyr.

43 Ar adeg ein gwaith maes, roedd ACC wedi dechrau gwaith ar ddiweddaru’r dangosyddion perfformiad. Roedd hyn yn cynnwys ceisio barn staff ynglŷn â’r mesurau cyfredol a’r rhai newydd posibl. Mae ACC yn bwriadu datblygu peth naratif i ategu ei ddangosyddion a thargedau perfformiad meintiol.

44 Mae ACC hefyd yn bwriadu datblygu adroddiad naratif ar sut y mae’n gwreiddio’r pum ffordd o weithio ar draws y sefydliad. Nid yw wedi penderfynu eto beth fydd yn ei gynnwys nac ar ba ffurf.

# Argymhellion

45 Mae ein hargymhellion yn ceisio sicrhau y gall ACC gyflawni ei amcanion llesiant cyfredol yn effeithiol a chymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy i fwy o raddau wrth eu pennu nesaf.

**A1** Dylai ACC adolygu ei fesurau perfformiad presennol wrth iddo ymgymryd â swyddogaethau newydd a newid i fod yn sefydliad sy’n seiliedig ar wasanaethau yn unol â’i amcanion llesiant (gweler **paragraffau 39 i 42**).

**A2** Dylai ACC sefydlu cysylltiad mwy eglur a mwy uniongyrchol rhwng ei gynllun corfforaethol a’i gynllun busnes, yn benodol rhwng y camau y mae wedi dweud y bydd yn eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant a chamau gweithredu a nodir yn y cynllun busnes. Dylai hyn helpu i osgoi cymhlethdod a sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar gyflawni’r holl gamau yn ei Gynllun Corfforaethol (gweler **paragraff 35**).

**A3** Er bod ACC yn archwilio tueddiadau’r dyfodol fel rhan o’i gylch rheolaidd o gyfarfodydd y bwrdd, dylai adeiladu ar hyn trwy ymgorffori ystyriaeth i dueddiadau’r dyfodol fel rhan o’r broses o bennu ei amcanion llesiant (gweler **paragraff 17**). Gallai hyn greu cyfleoedd i gynnwys staff ehangach yn y broses o archwilio tueddiadau’r dyfodol a helpu ACC i daro cydbwysedd rhwng ystyriaethau byrdymor a hirdymor wrth lunio ei amcanion.

**A4** Dylai ACC ehangu a chryfhau’r modd y mae’n cynnwys rhanddeiliaid pan fo’n pennu ei amcanion llesiant nesaf, gan gynnwys trwy wneud y canlynol:

**4.1** gweithio gydag undebau llafur yng nghyfnod ffurfiannol a thrwy gydol y broses, i ateb gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (gweler **paragraff 22**);

**4.2** ceisio barn sefydliadau partner, gan gynnwys partneriaid newydd megis awdurdodau lleol, i adlewyrchu ei gyfrifoldebau newydd (gweler **paragraffau 26 a 27**).

**4.3** ceisio barn yr amrywiaeth o ddefnyddwyr, a darpar ddefnyddwyr, ei wasanaethau, gan gydnabod y bydd angen i hyn fod yn gymesur (gweler **paragraffau 27 i 28**).

**A5** Pan fydd yn datblygu datganiad llesiant nesaf dylai ACC sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy’n ofynnol dan y Ddeddf, gan gynnwys trwy:

**5.1** egluro pam ei fod yn tybio ei fod wedi pennu amcanion llesiant yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler **paragraff 9**);

**5.2** nodi sut y mae’n bwriadu sicrhau bod adnoddau’n cael eu dyrannu’n flynyddol at ddibenion cymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant (gweler **paragraff 38**).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i ACC bennu a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u bwriadu i gynyddu i'r eithaf ei gyfraniad at gyflawni pob un o'r nodau llesiant cenedlaethol.

Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio i ba raddau y mae ACC wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol cynnal archwiliad o'r natur hon o leiaf unwaith mewn cyfnod adrodd penodedig. Daw'r cyfnod adrodd cyfredol i ben ym mis Mai 2029.

Fe archwiliom ni sut yr aeth ACC ati i bennu ei amcanion llesiant cyntaf, a wnaeth rhwng mis Ebrill 2024 a mis Ebrill 2025. Fe wnaethom gasglu a dadansoddi ein tystiolaeth rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2025.

Roedd hwn yn adolygiad gweddol lefel-uchel. Roedd ein prif ffocws ar y broses a arweiniodd at gyhoeddi'r amcanion. Rydym wedi ystyried cynllunio corfforaethol ac ariannol i'r graddau y maent yn berthnasol i sut y gwnaeth ACC ddatblygu ei amcanion llesiant a dechrau cynllunio ar gyfer eu cyflawni. Nid ydym wedi asesu effeithiolrwydd prosesau cynllunio corfforaethol ac ariannol ACC ar y cyfan.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Wrth wneud y gwaith hwn, fe wnaethom archwilio'r canlynol:

- A gafodd y broses a sefydlodd ACC i bennu ei amcanion llesiant ei thanategu gan yr egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A yw ACC wedi ystyried sut y bydd yn gwneud yn siŵr y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?

- A yw ACC wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd, dysgu, a pharhau i wella sut y mae’n cymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant?

### Meini prawf

Fe ddefnyddiom ni feini prawf archwilio i oleuo ein hasesiad. Mae’r meini prawf archwilio’n disgrifio sut y mae da’n edrych ac yn cwmpasu pob un o bum ffordd o weithio’r egwyddor datblygu cynaliadwy. Maent yn seiliedig ar y dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi’u defnyddio’n flaenorol yn ein harchwiliadau o roi’r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith. Fe ddatblygom ni’r dangosyddion hyn trwy ymgysylltu â chyrff cyhoeddus a chan gael ein goleuo gan gyngor ac arweiniad gan Gomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru.

## Dulliau

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys cynllun corfforaethol a datganiad llesiant ACC, tystiolaeth sydd wedi goleuo ei ffordd o feddwl am yr amcanion llesiant, a chofnodion cyfarfodydd allweddol.

Fe wnaethom hefyd gyfweld â staff a oedd wedi arwain y broses o ddatblygu’r amcanion llesiant a sampl o uwch aelodau o staff.

# 2 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** | Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy, a ddiffinnir fel y 'broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant'. |
| **Egwyddor datblygu cynaliadwy** | Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd 'sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.<br>Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n cynnwys pum ffordd o weithio:<br>• Hirdymor<br>• Integreiddio<br>• Cynnwys<br>• Cydweithio<br>• Atal. |
| **Hirdymor** | Pwysigrwydd taro cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Integreiddio** | Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ei amcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |

| | |
|---|---|
| **Cynnwys** | Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu. |
| **Cydweithio** | Cydweithio gydag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant. |
| **Atal** | Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Nodau llesiant cenedlaethol** | Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod llesiant.<br><br>Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i gyrraedd yr holl nodau, nid dim ond un neu ddau. |
| **Dangosyddion cenedlaethol** | Set o ddangosyddion i fesur y cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant ar lefel genedlaethol, yn hytrach na pherfformiad cyrff cyhoeddus unigol. |
| **Amcanion llesiant – a chamau i'w cyflawni** | Rhaid i gyrff cyhoeddus bennu a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u bwriadu i gynyddu i'r eithaf eu cyfraniad at gyrraedd pob un o'r nodau llesiant.<br>Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol (wrth gyflawni eu swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny. |
| **Datganiadau llesiant** | Wrth gyhoeddi amcanion llesiant, rhaid i gyrff cyhoeddus gyhoeddi datganiad llesiant hefyd. Rhaid i ddatganiadau llesiant gynnwys gwybodaeth benodol. Ymhlith pethau eraill, mae hyn yn cynnwys:<br>• pam fod corff o'r farn y bydd cyflawni'r amcanion yn cyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant; a hefyd<br>• y camau y mae corff yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny. |

| | |
|---|---|
| **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru** | Dyletswydd gyffredinol y Comisiynydd yw hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Yn arbennig, gweithredu fel gwarcheidwad gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, ac annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith hirdymor y pethau a wnânt. Mae gwefan y Comisiynydd yn darparu rhagor o wybodaeth am eu gwaith. |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth lleol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd defnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith â chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw term ambarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.